Heddlu Police
DYFED-POWYS

Cyfeirnod Rhyddid Gwybodaeth: 39/2021

Cais:

Rwy'n anfon y cais hwn o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i ofyn am y gwybodaeth ganlynol:

1. Datgelwch sawl gwaith y soniwyd am yr apiau canlyn Tinder, Hinge, Bumble, Grindr, Plenty of Fish, okCupid, eHarmony, a match.com mewn adroddiadau trosedd ar gyfer pob mis calendr yn y blynyddoedd:
a. 2018
b. 2019
c. 2020
ch. 2021 (Ion)

2. A fyddech gystal â rhoi crynodeb o'r troseddau a nodwyd yn yr ateb i gwestiwn 1 a-ch fesul mis calendr yn y blynyddoedd a nodwyd, yn ôl grŵp dosbarthiad trosedd y Swyddfa Gartref y mae'r drosedd yr adroddwyd amdani'n perthyn iddo os gwelwch chi'n dda.

Ymateb:

Medraf gadarnhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn dal y wybodaeth y gofynnwyd amdani, fodd bynnag, yr ydym yn eithrio rhan o'r wybodaeth honno oherwydd rydym yn credu bod yr eithriad canlynol yn berthnasol:

Adran 30(1)(a) Ymchwiliadau a Gweithdrefnau a gynhaliwyd gan Awdurdodau Cyhoeddus

(1) Mae gwybodaeth sy'n cael ei dal gan awdurdod cyhoeddus yn wybodaeth eithriedig os yw'r awdurdod wedi'i dal ar unrhyw adeg gan yr awdurdod ar gyfer dibenion -
(a) Unrhyw ymchwiliad y mae gan yr awdurdod cyhoeddus ddyletswydd i gynnal gyda golwg ar bennu (i) pa un ai a ddylid cyhuddo unigolyn o gyflawni trosedd, neu (ii) pa un ai a yw unigolyn sydd wedi'i gyhuddo o gyflawni trosedd yn euog ohoni.

Mae Adran 30(1)(a) yn eithriad sy'n seiliedig ar ddosbarth. Golyga hyn fod y deddfwyr, wrth ysgrifennu'r ddeddfwriaeth, wedi ystyried y byddai rhyddhau gwybodaeth o'r fath o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn achosi niwed i'r awdurdod cyhoeddus neu'r unigolyn dan sylw. Gan hynny, does dim rhaid cynnal Prawf Niwed mewn perthynas â gwybodaeth o'r fath. Fodd bynnag, mae angen cynnal Prawf Budd Cyhoeddus er mwyn sefydlu pa un ai a allai'r budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad orbwyso'r budd cyhoeddus ehangach mewn datgelu.

SWYDDOGOL

Prawf Budd Cyhoeddus

Ystyriaethau sy'n ffafrio datgelu:

Byddai datgelu'r wybodaeth yn gwella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd ac yn bodloni'r cyhoedd bod yr achosion hyn yn cael eu hymchwilio'n drylwyr a bod troseddwyr yn cael eu trin yn unol â hynny.

Ystyriaethau sy'n ffafrio peidio â datgelu:

Mae'r eithriad hwn yn cynnwys gwybodaeth sy'n cael ei dal ar unrhyw adeg ar gyfer diben ymchwiliad, waeth pa un ai a yw'r achos yn mynd rhagddo, wedi'i gau neu ei adael. Gallai rhyddhau manylion penodol am ymchwiliad sy'n mynd rhagddo, fel yn yr achos hwn, danseilio a niweidio'r ymchwiliad hwnnw. Byddai hyn yn effeithio ar allu'r heddlu i orfodi'r gyfraith yn y dyfodol drwy rwystro atal neu ddatrys trosedd.

Prawf Cydbwyso

Ar ôl ystyried manteision ac anfanteision datgelu, mae'n syrthio ar Heddlu Dyfed-Powys i gynnal prawf cydbwyso ar y materion. Mae angen pwyso a mesur y ddadl gryfaf dros ryddhau, sef ymwybyddiaeth gyhoeddus, yn erbyn y ddadl gryfaf dros beidio â datgelu, sef, y byddai rhyddhau'n tanseilio a niweidio ymchwiliad sy'n mynd rhagddo yn yr achos hwn, a fyddai'n effeithio ar allu'r heddlu i orfodi'r gyfraith yn y dyfodol drwy rwystro atal neu ddatrys trosedd.

Gan hynny, yn holl amgylchiadau'r achos, mae'r budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth.

Ymateb i Gwestiwn 1:

	Blwyddyn			
	2018	2019	2020	Ionawr 2021
Tinder	5	2	1	0
Hinge	0	0	1	0
Bumble	0	0	0	0
Grindr	0	0	0	0
Plenty of Fish	3	3	2	0
okCupid	0	0	0	0
eHarmony	0	0	0	0
Match.com	0	0	0	0
	Gweithredwyd Adran 30 x 2			

Ymateb i Gwestiwn 2:

Mis	Blwyddyn			
	2018	2019	2020	2021
Ionawr	0	0	0	0
Chwefror	1	2	0	0

Mawrth	0	0	0	0
Ebrill	0	1	1	0
Mai	0	0	0	0
Mehefin	1	0	0	0
Gorffennaf	0	0	2	0
Awst	2	0	0	0
Medi	1	0	0	0
Hydref	2	1	0	0
Tachwedd	0	1	0	0
Rhagfyr	1	0	1	0
	Gweithredwyd Adran 30 x 2			

Trosedd	Blwyddyn			
	2018	2019	2020	2021
Blacmel	2	0	0	0
Difrod Troseddol – Preswyl	0	0	1	0
Digwyddiad Twyll	0	0	1	0
Aflonyddu	2	2	0	0
Cyfathrebu Maleisus	2	2	1	0
Aflonyddu a waethygwyd gan hiliaeth/crefydd	0	1	0	0
Ymosodiad rhywiol ar ddynes 13 oed neu hŷn	1	0	0	0
Stelcio	1	0	1	0
	Gweithredwyd Adran 30 x 2			

Dylid nodi hefyd nad yw'r wybodaeth a ryddhawyd yn gywir o ganlyniad i'r systemau sydd wedi'u mabwysiadu gan Heddlu Dyfed-Powys mewn perthynas â chofnodi gwybodaeth o'r fath.

Yn ogystal, dylid nodi bod yn rhaid i heddluoedd y Deyrnas Unedig roi ystadegau trosedd i gyrff llywodraethol yn rheolaidd, ac mae'r meini prawf wedi'u gosod yn genedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r systemau a ddefnyddir ar gyfer cofnodi'r ffigurau hyn, na'r gweithdrefnau a ddefnyddir yn lleol wrth gipio'r data trosedd, yn generig. Am y rhesymau hyn, dylid nodi na ddylid defnyddio ymateb yr heddlu i'ch cwestiynau ar gyfer dibenion cymharu gydag unrhyw ymateb arall yr ydych wedi'i dderbyn.